

Dyddiad: 12 Rhagfyr 2001
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
Teitl: Adroddiad ar hynt Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth

Diben

1. Darparu'r Pwyllgor gyda diweddariad o'r cynnydd a wnaethpwyd hyd yn hyn gan gyfeirio at yr ystod o weithgareddau a nodwyd yng Nghynllun Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth. Mae hyn yn ymateb i gais y Pwyllgor ar y 4 Ebrill eu bod yn derbyn adroddiadau i'w hystyried bob chwe mis.
2. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod y rhaglen yn grynodedb o'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni gan brif gyrff cyhoeddus Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys ELWa, Cyllid Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru yn ogystal â Llywodraeth Cynulliad Cymru a nifer o bartneriaethau lleol sy'n defnyddio'u cronfeydd a'u hadnoddau eu hunain o'r gwahanol gronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Lluniwyd y rhaglen gyda chanllawiau oddi wrth Banel o arbenigwyr sectorau preifat a chyhoeddus gyda Roger Jones yn y Gadair a chefnogaeth tîm gweithredol o Awdurdod Datblygu Cymru. Paratowyd yr adroddiad yn Atodiad 1 gan Uned Entrepreneuriaeth Awdurdod Datblygu Cymru.
3. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r sefyllfa hyd yn hyn.

**Yr Is-adran Polisi Economaidd
Tachwedd 2001**

Mae fersiwn Saesneg y papurhwn yn cynnwys atodiadau. Yn anffodus nid yw'r atodiadau hyn ar gael yn Gymraeg.